

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Medi 17eg, 2015 yn Ffestri Capel Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Ifor W Davies, (Cadeirydd); Marian Evans, (Is gadeirydd); Dafydd Williams; Anwen Jones; Thomas Prys Jones; Trefor W Jones; William Ifor Hughes; Alwen Evans a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Margaret Griffith; Naomi Jones; Gwilym M Thomas; Aled Lloyd Evans, Elis Gwyn Jones a John Williams. Gofynnwyd i'r Clerc anfon cerdyn cydymdeimlo at y Cyngorwyr Margaret Griffith yn dilyn ei phrofedigaeth ddiweddar.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Orffennaf 5ed, 2015.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned; Ystâd Groesffordd Chwilog, Coed rhwng tro 'Rynys a'r bont, Pont Rhydybenllig, Cyffordd Tyddyn Sianel/Aelybryn. Derbyniwyd.

2. Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd; Coed rhwng tro 'Rynys a'r bont, Pont Rhydybenllig a Phont Llanystumdwy. Penderfynwyd derbyn.

3. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, Newyddlen Rhifyn 5 Gorffennaf 2015. Derbyniwyd er gwybodaeth.

4. Gwasanaeth Cyfreithiol, Y Cod Ymddygiad i Aelodau, sesiwn am 6.30yh yng Nghanolfan Frondeg, Pwllheli ar Hydref 7fed. Bydd y Cyngorwyr Ifor W Davies a Dafydd Williams yn mynd i'r cyfarfod yma.

5. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Troed y Garn, Llanybi a Ty'n Lôn Isaf, Llanybi, gwaith ail wynebu. Derbyniwyd.

6. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Medi 2015, Nant y Glyn, Llanystumdwy, draeniad. Penderfynwyd derbyn.

6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned:

a. Cais rhif C15/0759/41/LL– Gosod fferm solar ffotovoltaidd (pv) ar y tir gyda chapasiti o 5mw ar 9.05ha o dir amaethyddol ynghyd a chyfarpar cyswllt, trac mynediad, compownd adeiladu, ffens ddiogelwch a gwelliannau tirweddu; Tir yn Rhosgyll Fawr, Chwilog.

b. Cais rhif C15/0751/41/LL- Gosod system ynni ffotovoltaidd (pv) ar ddaear hyd at 4.42mw ar 14.22 o dir amaethyddol a gwaith cysylltiol gan gynnwys dau adeilad is-orsaf a ffensys diogelwch a strwythurau trawsnewid; Fferm Bryn Bachau, Chwilog.

c. Cais rhif C15/0755/41/LL – Gosod a gweithredu fferm solar ffotovoltaidd (pv) ar y tir gyda chapasiti hyd at 3.8MW ar 6.9 hectar o dir amaethyddol ynghyd a chyfarpar cyswllt, ffens diogelwch, camerau cylch cyfyng, thoilet compostio, strwythurau/cabannau trawsnewid, storio, is-orsaf a rheolioli a creu trac newydd; Tyddyn Gwyn, Llanybi.

Ar y tri cais yma yn dilyn y sylwadau gafwyd, anfonwyd y sylwadau nad oedd gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy ddim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio yma. Angen cadarnhau'r sylwadau. Penderfynwyd cadarnhau.

ch. Cais rhif C15/0788/41/LL – Codi estyniad deulawr i greu 2 fflat gwyliu hunan gynhaliol, Tan Lon, Cricieth. Un sylw gafwyd ar y cais yma ac o'r herwydd ni anfonwyd sylw i'r Adran Gynllunio.

d. Cais rhif C15/0737/41/LL – Amnewid 25 carafan teithiol am 16 carafan sefydlog, ail leoli 4 carafan sefydlog presennol ynghyd ag ail leoli gwasanaethau a dileu uned ger y fynedfa; Fferm Gell Uchaf, Rhoslan. Doedd gan y Cynghorwyr ddim gwrthwynebiad i'r cais yma.

dd. Cais rhif C15/0320/41/LL – Diddymu amodau 2,3 a 4 o ganiatad cynllunio C10D/0040/41/LL er mwyn caniatáu defnyddio uned wyliau presennol fel annedd; Capel Brynbychau, Chwilog. Apêl o dan Adran78(i) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Doedd gan y Cynghorwyr ddim sylwadau pellach ac felly derbyniwyd er gwybodaeth.

7. Llythyr oddi wrth Gyngor Tref Pwllheli ynghylch gwrthwynebiad i gais cynllunio. Deallir bod gwrthwynebiad Cyngor i gais cynllunio yn cyfrif fel un gwrthwynebiad yn unig a bod angen o leiaf tri gwrthwynebiad cyn i gais gael ei gyflwyno i bwyllgor. Penderfynwyd anfon llythyr at Mr Aled Davies, Adran Rheoleiddio Cyngor yn mynegi bod y Cyngor yma o'r farn y dylai cais cynllunio sydd yn cael ei wrthwynebu gan Gyngor Tref neu Gymuned gael ei benderfynu arno gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd yn hytrach na chan swyddog unigol.

8. Un Llais Cymru;

a. Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2015, Pontrhydfendigaid, Hydref 3ydd, 2015. Enwebwyd y Cynghorwyr Ifor W Davies a Trefor W Jones i gynrychioli'r Cyngor yn y gynhadledd.

b. Cynigion y Gynhadledd, copi er gwybodaeth. Derbyniwyd.

c. Hyfforddiant mis Hydref. Doedd neb awydd mynd ar yr un o'r cyrsiau.

9. Dogfen y Bwrdd Iechyd ar y Gwasanaeth Mamolaeth. Penderfynwyd anfon llythyr yn gofyn i'r gwasanaeth yn Ysbyty Gwynedd barhau fel ag y mae.

10. **Materion yn y gymuned.**

Chwilog. Cwynion gan drethdalwr:

1 Mae Bysus Arriva yn gwrthod derbyn ticedi bysus Caelloi o Chwilog i Porthmadog neu Bwllheli sydd yn golygu fod y teithwyr yn gorfod codi dau docyn sengl. Penderfynwyd anfon llythyr at Arriva yn gofyn iddynt ailystyried eu newid polisi a chysylltu gydag Adran Trafnidiaeth y Cyngor Siriofyn iddynt hwythau geisio dwyn perswad ar y cwmni.

2 Roedd trethdalwr wedi bod yn ceisio ffonio Ysbyty Bryn Beryl ers dydd Gwener, Medi 4ydd ymlaen ond doedd y ffôn ddim yn gweithio am rai dyddiau. Deallir bod hon wedi bod yn gwyn gyffredinol yn ardal Y Ffôr dros y cyfnod yma. Penderfynwyd anfon cwyn at BT.

3 Llanarmon

Gwasanaeth band eang cyflym yn yr ardal. Ymddengys bod y polion angenrheidiol ar gyfer band eang ffibr cyflym yn eu lle ond bod BT yn hynod o araf yn gwneud y cysylltiadau i gartrefi yn enwedig yn y cefn gwlad, mewn lleoedd fel Llanarmon ymhlith eraill. Penderfynwyd anfon at Liz Saville-Roberts AS i ofyn am ei chymorth ac anfon copi i Dafydd Elis-Thomas AC. Anfonwyd copi i BT hefyd.

Llanystumdwy/Rhoslan

Pont Bryn Beddau ymlaen heibio Betws Bach; mae'r gordyfiant mawr ar hyd y ffordd yma yn dal i fod yn amharu ar drafnidiaeth sydd yn ceisio tramwyo ar hyd y ffordd, yn enwedig loriau a pheiriannau amaethyddol. Penderfynwyd anfon ynghylch hyn i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

#### Llangybi

1. Bu peth cwyno'n lleol am y blerwch wrth dorri'r cloddiau ganol haf e.e. cerrig yn cael eu rhyddhau o'r cloddiau ac yn rowlio i'r ffordd, pyst ffensio yn cael eu malu. Nodwyd mai contractwyr o bell oedd wrth y gwaith. Penderfynwyd Anfon at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.
2. Pwysedd dŵr uchel mewn rhan o bentref Llangybi. Effeithir ar Gwernydd a Bodawen a rhai tai cyfagos. Dŵr Cymru yn dweud mai mater i blymwyr y perchnogion yw, a'r plymwyr yn dweud na allant hwy setlo'r broblem. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd mai problem trigolion y taiydi hon.
3. Arwyddion 30 m.y.a. ochr y dwyrain i bentref Llangybi wedi cael eu taro gan gerbydau uchel, a'r un ochr dde wrth fynd o'r pentref wedi cael cryn ddifrod. Deallir bod sefyllfa debyg o groeslon Tŷ Newydd am y pentref hefyd. Penderfynwyd anfon at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.
4. Cerrig wedi eu taflu i Ffynnon Gybi yn ystod y gwyliau.
5. Cangen anferth wedi rhan-rwygo o goeden yn uchel ar y bonyn (derw) ac yn pontio dros y lwybr Garn Bentyrch yn y Winllan ar y gwastad ger giat uchaf y llwybr. Gall fod yn fater o ddiogelwch y llwybr.
6. A ddylid meddwl am ddar-gyfeirio'r llwybr (uchod) i redeg gyda'r ffens (y tu allan iddi) ?Byddai hynny'n gwneud pethau yn haws i bawb. Ar rif 4, 5 a 6 penderfynwyd anfon at CADW a gofyn am gyfarfod ar y safle gyda'r Cynghorwyr lleol.
11. Cynrychiolydd ar Gorff Llywodraethol Ysgol Llanystumdwy. Penderfynwyd enwebu y Cynghorydd Naomi Jones.
12. Hysbysebu ar y we a nawdd i wahanol fudiadau. Penderfynwyd gohirio trafod y mater yma tan ar ôl y cyfarfod Cod Ymddygiad ym Mhwllheli, gweler cofnod 5.4 Cyngor Gwynedd.
13. Dyddiad i'r Pwyllgor Sefydlu Busnes ymgynnull. Penderfynwyd rhoi hwn ar raglen waith cyfarfod mis Hydref.
14. Ymddiswyddiad y Cynghorydd Brian W Ifans. Penderfynwyd derbyn ei ymddiswyddiad a gofynnwyd am i lythyr gael ei yrru at y Cynghorydd yn diolch iddo am ei waith ar y Cyngor dros y blynyddoedd. Bydd angen cysylltu gyda Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir i ddweud bod sedd wag. Yn ogystal bydd angen cael mandate newydd i'r banc a gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau ynghylch gwneud taliadau BACS yn enw'r Cyngor.

**Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.**

